

Beirniadaeth Cystadleuaeth rhif 341, Barddoniaeth Blwyddyn 8 – ‘Cynefin’

Beirniad: Gwawr Maelor Williams

Da iawn i'r 52 yrrodd eich cerddi i'r gystadleuaeth. Un o'r pethau pwysig wrth ysgrifennu cerdd ydi cael rhywun i'w darllen, gwranddo arni neu ei hadrodd yn uchel a dyma wnês i gyda bob un. Felly, os gofynnwch chi, mae sylwadau byr i bob un ohonoch.

Yn eich cwmni, rwyf wedi crwydro o'r de i'r gogledd ac wedi dod i adnabod bröydd a chymoedd, dyffrynnoedd ac afonydd Cymru trwy eich llygaid a'ch lleisiau chi. Mae nifer fawr ohonoch chi yn cyfleu harddwch eich hardaloedd ac rydych yn rhannu hanes ddoe a heddiw y lleoedd hyn a phob lle yn cael effaith wahanol arnoch chi e.e. mae cynefin **Blodyn** yn '*cwtsh bach yng nghanol y byd*' ac er bod cynefin **Cenhinen Pedr** wedi newid dros y canrifoedd mae cynefin cyfoes ei bentref yr '*...Arced a pharc agored*' a siopau *McDonalds* a *Tesco* yn '*[d]darn o dir sy'n driw i mi*'. Mae cerdd **Le Bron James** hefyd yn sôn am dref lle '*Mae'r strydyoedd yn dal ein camau*'. Dyma bersonoli da gan y tri ohonoch.

Mae rhai ohonoch chi'n edrych ymlaen am adael eich cynefin ac yna'n gwybod yn iawn mai adref rydych chi eisiau bod yn y diwedd. Rydych chi'n credu fel yr hen ddywediad 'Teg edrych tuag adre'.

Dim ond ychydig o'r 52 ohonoch sydd wedi meddwl am y testun 'cynefin' mewn ffordd wahanol. Symbol baner Cymru sy'n gwneud **Y Ddraig** ddweud '*Rwyf adre pan welai di*.' Mae gwawrchodwyr cynefin y dyfodol yn ddiogel yng ngwaith **HR** neu **Panda Gwyn** sy'n poeni am effaith dadgoedwigo lle '*Mae gan bob cangen gyfrinach, o dan y rhisgl mae yna stori*.' Dyna chi ddweud da. Person yw cynefin i sawl un arall neu deulu a ffrindiau. Mae pedwar bardd yn cyferbynnu cynefinoedd personol, diogel gyda chynefinoedd lle mae dronau a thaflegrau a rhyfel. Roedd hi'n braf darllen hefyd am gynefin pobl ifanc blwyddyn 8 fel eu lloffttydd e.e. mae cynefin **Euros** yn dechrau am '*hanner awr wedi tri*' neu cynefin **Ifan Watsiad Losgi** ydi '*mynd i'r ryc*'. Ia siŵr, wrth gwrs! Mae angen mwy o farddoni am bethau, syniadau a theimladau sy'n troi o gwmpas bywyd pobl ifanc eich hoed chi!

Felly, cyn troi at y goreuon, falle fydd y tips yma yn newydd i rai ohonoch chi ym mlwyddyn 8:

- Meddyliwch am y testun o bob cyfeiriad, nid ei ystyr llythrennol bob amser. Rhowch y testun o dan bob math o chwyddwydrau, o bell ac agos, tu fewn a thu allan i chi. Ydi'r teitl yn tyfu i chi wrth feddwl am le, person, deialog, neu un manylyn bach, bach neu deimlad? Wedyn, gadewch nhw lonydd a dewch yn ôl i weld pa syniad sy'n cydio ac yn codi'n ara bach fel burum mewn bara i chi. A sgwennwch!
- Cofiwch brawf-ddarllen fel nad oes *typos* yn y gwaith, defnyddiwch Cysill – dyna mae o'n dda ac mae pob athro yn defnyddio Cysill, cofiwch, er mwyn gwirio eu gwaith! Neu mi ddylien nhw!

- Mae bron pawb wedi dewis odli, arbrofwch gyda cherddi rhydd, cerdd siâp neu arall hefyd am newid neu rhag ofn ei fod yn agor drysau arall i chi.
- Cyhoeddwch neu rannwch eich cerddi ar wefan yr ysgol, papur bro neu beth am eu cynnig i Bro 360, os yn berthnasol i'ch ardal chi. Gofynnwch i'ch athrawon fframio'r gerdd ar wal ddosbarth sy'n addas i gyd-destun y gerdd e.e. byddai nifer o gerddi'r gystadleuaeth yn addas ar waliau lle rydych yn cael gwersi hanes a daearyddiaeth. Mae cerdd **Ifan wastia losgi** yn addas i'w fframio ar wal yr ystafell newid yn yr Adran Addysg Gorfforol cyn *'mewn i'r ryc'* ar y cae chwarae. Neu, fframiwch y gerdd ar wal amlwg yn eich catref neu ei rhoi fel anrheg i'r bobl neu'r teulu sy'n nabod y person sydd wedi creu eich cynefin chi!

A dyma'r goreuon. Yn agos iawn i'r brig, daeth gwaith **Bosbina, BR a Dr Pwy** am gyflwyno'u cynefinoedd yn gofiadwy, teimladwy a thrwy ddweud effeithiol iawn.

Mae'r drydedd wobr yn mynd i **Ffermwr Bodlon**. Dyma gerdd sy'n mynd â mi yn syth i gaeau ac adeiladau fferm Hirwaun. Mae'n fardd sy'n sylwi ar fanylion bach sy'n dweud y cyfan wrthym am natur caeau a byd ffermio ei gynefin e.e. mae Cae Mawr yn gae gwlyb ac yn *'bantiau a thonnau, / yn crwydro am y lân'*. Mae'n fardd synhwyrus a gallaf aroglu Sied Newydd i'r dim *'Oglau'r dŵr wedi sefyll / Pennau'r heffrod yn y clo-pen-rhes.'* Rwyf yn gallu gweld y *'drydwys'* yn *'pigo cefna'r buchod'*. Dyma beth ydi bardd sylwgar sy'n gallu creu awyrgylch. Dyma gerdd lle diffinnir cynefin yn gynnwl fel lle o fodlonrwydd er nad yw'n defnyddio'r gair 'bodlon' yn ei g/cherdd o gwbl, dim ond yn ei ffugenw! Mae'r gerdd yn cloi'n hollol naturiol gyda bodlonrwydd y ffermwr/bardd yn y parlwr *'Cyn i'r haul ddiuno, / Hufen melys buwch 819, / Yn fy nghoffi.'* Dyma gyfleu cynefin naturiol bob dydd sy'n argyhoeddi.

Dewin sy'n derbyn yr ail wobr. Mae cynefin **Dewin** yn gorwedd tu fewn i hen ddyddiadur ei nain a'i geiriau yn *'aros yn saff'* fel *'cannwyll gysurus'*. Mae Dewin yn gallu meddwl yn wahanol, ac ef/hi yw cyffelybwr gorau'r gystadleuaeth, heb os. Mae inc personoliaeth ei nain a'i phrysurdeb yn ei chynefin wedi ei *'wasgu'* *'i bob llythyren / fel gwasgu dŵr o gadach wrth olchi'r tanc laeth ar ddiwedd godro.'* Eto, *'Roeddem ni yno hefyd, / Yn wyrion a'r gorwyrion, / 'wedi ein dotio rhwng y llinellau di-ddiwedd, / Fel rhestr siopa'r farchnad dydd Llun.'* Mae chwarae ar air *'dotio'* yn dweud y cyfan!

Mae'r wobr gyntaf yn myndi i gerdd **Draig Goch**. Mae'r bardd yn agor llenni ei lloffft i ni weld a chlywed popeth sy'n gwneud iddo/i allu dweud *'Dw i gartref'* fel clywed y *'drên hanner awr wedi saith yn gadael yr orsaf'* neu *'bachgen o rif 10 / yn ceisio perswadio'i gath yn ôl i'r tŷ.'* Ac yna, yn ail ran y gerdd, mae'n disgrifio man lle *'dyw 'Adre' ddim yn bod'* lle *'daw awyrennau a dronau / a thaflegrau fel mellit o'r awyr.'* Er fod pobl yn ffoi *'hwn yw eu cynefin, / a hwn fydd 'Adre' o hyd'*. Ond mae tro yng nghynffon y gerdd yn y diwedd glo. Mor hawdd yw anghofio a chymryd ein cynefin, cartref a'n 'hadref' ni yn ganiataol. Cerdd rydd ag iddi neges rymus. I mi, dyma gyfanwaith gorau'r gystadleuaeth.

Llongyfarchiadau mawr i'r tri ddaeth i'r brig. Diolch i chi gyd am rannu eich gwaith ac ewch ati nawr i ddarllen y gerdd fuddugol ac i fframio a chyhoeddi eich gwaith chi hefyd.

Sylwadau ar gyfer pob ymgeisydd yn ôl eu ffugenwau:

Annabelle:

Cerdd fach bersonol am gynefin sy'n agos at dy galon 'Annabelle'. Rwyd ti'n dda am gyfleu beth wyt ti'n ei weld. Tro nesa, meddylia fwy am beth rwyd ti'n glywed ac yn ei deimlo hefyd. Un peth bach arall, cofia'r gwahaniaeth rhwng 'ar'(on) ac a'r (and the) yn yr ail linell. Dal ati rwyd ti'n dechrau sylweddoli beth sy'n gwneud cerdd dda wrth siarad o dy brofiad.

Blodyn:

Cerdd fach sy'n datgan yn glir fod Sir Ceredigion yn gynefin gwerth byw ynddi. Rwyd yn cyfleu harddwch y sir a hefyd ei phwyslais ar iaith a thraddodiad. Mae gen ti un linell gwerth chweil sef '*yn ein cwtsh bach yng nghanol y byd*'. Mae hyn yn dweud llawer mewn ychydig oherwydd mae cwtsh yn cyfleu diogelwch, cysur, cariad a diogelwch gyda'i gilydd. Mwy o feddwl cynnil fel hyn!

Bob Jeffrey:

Buaswn yn hoffi byw yn dy 'gynefin' di 'Bob Jeffrey!'. Rwyd yn sylweddoli fod cynefin yn golygu mwy nag adeiladau a thirwedd a bod cymdeithas o bobl yn creu cynefin hefyd. Dal ati.

Bosbina:

Dyma gerdd sy'n faledol ei naws ac yn adrodd stori deulu hynod bersonol am dad a mab yn cael eu hanfon i ymladd yn ffosydd Ffrainc yn 1916 a dim ond un ddaeth gartref. Adroddir y stori bersonol trwy lygaid seithfed cenhedlaeth y teulu. Diolch i'r bardd am roi esboniad byr o'r cefndir a lluniau aelodau o'r teulu sy'n berthnasol i'r gerdd. Ond mae'r gerdd yn sefyll ar ei phen ei hunan hefyd. Dyma gerdd am golled sawl cymdeithas, cynefin a chenedl mewn rhyfel. Ond y golled fwyaf un ydi'r golled deuluol pan ddychwelodd Evan y mab o'r rhyfel gyda'i gwestiwn ingol '*Ddaeth nhad ddim adre, Mam?*'

Mae gan 'Bosbina' allu i greu rhagor o linellau cynnil, cofiadwy fel hyn wrth ddisgrifio prysurdeb a natur weithgar y fam cyn y chwalfa fawr '*Ei chlocs yn curo'r llechi*' neu wrth nodi 'r mab yn brwydro yn y rhyfel yn '*Colli coflaid ei gynefin*'. Yna eto, yn y bennill olaf, mae'r bardd ei hun yn dweud wrth edrych ar lun mewn ffrân yn y parlwr pella '*tra bo'n hanes ni ar hoelen*' bydd y cof am David Morgans, Datcu Bontfach yn fyw. Mae'r gerdd yma gan

seithfed genhedlaeth yn dilyn David Morgans yn haeddu bod mewn ffrâm ochr yn ochr gyda'i lun. Mae modd ystwytho rhai llinellau a chwtogi rhai penillion i ffitio'r ffrâm ond dyma gerdd sy'n cyfleu cynefin mewn sawl ffordd.

BR:

Cerdd syml, ar yr olwg gyntaf, ydi cerdd BR i Afon Tawe. Mae'n gerdd siâp a'r llinellau wedi'i gosod fel llyf yr afon yn symud a throi o'i tharddiad tawel i'w rhuthr gwyllt trwy'r dyffryn. Mae BR y bardd nid yn unig yn gwneud i ni weld llyf yr afon ond ei chlywed hi'n sibwrdd a llifo dros y canrifoedd. Sibwrdd hen alawon *Glyntawe, Cân ysbrydion a Deryn du a'i blyfun sidan* neu yn cario sŵn chwedlau *John Gethin a'r gannwyll, Ladi Wen Craig y Nos* ac *Ysbryd Elizabeth Gething*. Hoffais hyn yn fawr gan mod i'n gallu dychmygu brodorion yr ardal ar draws y canrifoedd yn byw a bod yng nghwmni'r alawon a'r hen chwedlau. Mae'r bardd yn awgrymu eu bod yn fyw o hyd heddiw wrth i'r bardd a'i ffrindiau nofio yn nŵr Afon Tawe yng nghwmni eu straeon a'u siarad eu hunain hefyd. Mae angen cofio'r collnodau wrth iti ysgrifennu BR a hefyd byddai dweud dy gerdd yn uchel yn gwneud iti glywed a theimlo rhythm a'r angen i dwtio un llinell 'cario chwedlau o'r brodorion' fel ei bod yn llifo'n well yn dy glust. Ond dyma gerdd sy'n aros yn y cof wrth i ni deimlo 'gynefin y cwm' wrth lannau Afon Tawe ddod a heddiw fel ei gilydd.

Buwch Goch Gwta:

Rwy't ti'n trin y teitl 'cynefin' yn wahanol, Buwch Goch Gwta, ac yn edrych ymlaen i fynd allan o dy gynefin gyda '*gwreiddiau dy gyndadau*' oddi tanat. Rwy't eisiau gweld tu draw i dy gynefin cyn dod yn ôl i ddweud straeon dy fywyd. Tria ddod â'r syniad o wreiddiau yn ôl ar y diwedd fel dy fod yn meddwl am dy gerdd fel un trosiad estynedig. Dal ati.

Panda Coch:

Rwy't ti'n hoff o chwarae gyda geiriau ac ansoddeiriau fel bardd. Da gweld hyn ond weithiau cofia bod dweud yn syml a chlir yn cyfleu llawer hefyd. Mae gen ti syniad da o ran dadgoedwigo mewn rhan o'r gerdd. Mae rhai llinellau sy'n aros yn y cof hefyd e.e. '*Mae gan bob cangen gyfrinach, o dan y rhisgl mae yna stori / Eu dail yn sibwrdd, yn erfyn arnoch i'w profi.*' Dym beth rydym ni'n alw yn 'bersonoli' da. Diolch am gystadlu a dalia ati i farddoni!

Carneddau:

Dyma gerdd fach synhwyrus am Ddyffryn Tefi hardd a dy falchder am yr fro. Mae cyffelybiaeth fach dda yn y gerdd e.e. y *sêr fel angylion y gofod*. Dalia ati.

Cenhinen Pedr – ‘Cynefin’:

Dyma gerdd sy’n creu darlun o gynefin ddoe a heddiw yn daclus a syml. Rwyf yn dangos y newid dros y cenhedloedd mewn chwedlau, diwylliant a diwydiant ac mae cynefin cyfoes y siopau McDonalds a Tesco a’r tai brics coch a dy deulu yn creu dy gynefin di. Llinell dda a chofiadwy ydi ‘*Darn o dir sy’n driw imi.*’ Mwy o hyn! Mae’n werth rhoi’r gerdd hon mewn ffrâm neu ei chyflwyno’n anrheg i un o dy deulu.

Cennin Pedr – ‘Cynefin ar Bwys y Môr’:

Dyma gerdd sy’n cynnal delwedd o gyd-destun y môr i gyfleu effaith dy gynefin arnat ti a tithe ar dy gynefin. Mae yma ddweud cofiadwy a thrawiadol er enghraifft dy hanes ‘wedi’i ysgrifennu mewn tywod sy’n newid bob dydd’ neu wrth gyffelybu’r môr yn dy ddal ‘fel breichiau diogel’. Rwyf yn meddwl fel bardd wrth feddwl am gynefin fel rhywbeth mwy na thir hefyd yn y clo cofiadwy. Mae’n werth cyhoeddi’r gerdd fach yma i’w rhoi i dy deulu neu ar wefan ysgol.

Coeden:

Dyma gerdd sydd ag iddi dro bach annisgwyl tua’r diwedd. Wrth ddisgrifio ‘cynefin’ rwyf yn ein tywys i feddwl am le rhydd, gwyllt, lle dim ffiniau, croeso cartref ond mae’r tro yn y gynffon pan rwyf yn dweud ‘*Nid lle / yw cynefin i mi / Ond ti*’...a’r llinell olaf ‘*Ti yw fy nghynefin i.*’ Mae’r gerdd yn adleisio cân Gwyneth Glyn ‘Adref’ yn dy eiriau di dy hun. Dal ati – cerdd gofiadwy.

Criafolen:

Me dy gerdd yn llifo’n dda wrth ei hadrodd yn uchel. Mae byd natur Bro Ddyfi, yn anifeiliaid ac adar gwylltion, yn creu dy gynefin boed yn nawns y barcud coch uwchben neu wrth edrych ar y grimell yn diflannu. Mae un gyffelybiaeth gofiadwy iawn gennyf ‘*Mae’r awyr yn gwisgo’r haul fel bathodyn*’. Mae lle i lle i newid rhai geiriau er mwyn tynhau’r rhythm. Dal ati.

Dafad:

Mae'r darllenydd yn gallu dychmygu dy 'adre' di'n fyw iawn fel lle mae dy gŵn o dy gwmpas, teulu yn sgwrsio '*fel parotiaid*' a chartef clud '*fel nyth*'. Rwy't yn dda am feddwl am gyffelybiaethau! Rwy't yn llygaid dy le wrth ddweud nad yw '*cartref yn gorfod bod yn ddrud*'. Cerdd fach sensitif ac yn werth ei rhoi ar gof a chadw mewn ffrâm ar wal dy gartref. Dalia ati.

Daffodil:

Dyma gerdd sy'n dangos pa mor braf yw dod adre ar ôl bod i ffwrdd ar wyliau. Er cymaint y '*sbri*' wrth fynd ar '*wyliau bendigedig*' does dim yn well na dod yn ôl at dy gynefin i dy gartref ac at dy deulu. Cerdd falch syml a llwyddiannus. Dal ati.

Dewin:

Mae Dewin yn dehongli teitl y gystadleuaeth trwy hen ddyddiadur ei Nain. Dyma fardd sy'n deall sut i gario delwedd gyffredin am ysgrifennu dyddiadur yn estynedig a hynod effeithiol trwy'r gerdd. Mae'r dyddiadur a geiriau ei nain yn 'aros yn saff' iddo bob amser ac '*fel kannwyll gysurus*'. Mae '*llais Nain yn sibwrdd drwy bob tudalen*' ac er bod '*y pen wedi wedi ei chodi am y tro olaf / ac inc bellach wedi darfod / Fydd ei chalon wastad yng nghudd rhwng llinellau'r dyddiadur*'. Mae Dewin yn gyffelybwr tan gamp sy'n disgrifio llythrennau '*t a h yn ymestyn tuag i fyny, fel nodau emyn*', mae'r inc wedi ei '*wasgu*' i bob llythyren '*fel petai'n gwasgu pob diferyn o fywyd o'r dydd / fel gwasgu dŵr o gadach wrth olchi'r tanc laeth ar ddiwedd godro*'. Rydym yn dod i wybod am fywyd prysur bod dydd ei Nain yn ei chynefin a'i chymdeithas '*Trallwm yn y bore/ Llanfair gyda'r nos*'. Mae Dewin yn disgrifio pa mor ganolog a chyson fu wyrion a'r gorwyrion yn ei bywyd yn wirioneddol wych:

'Roeddem ni yno hefyd...wedi ein dotio rhwng y llinellau di-ddiwedd, Fel rhestgr siopa'r farchnad dydd Llun.' Mae'r chwarae ar y gair 'dotio' yn dweud y cyfan yma. Mae cynefin Dewin wedi cydio'n syth a'i ddehongliad o gynefin ar sawl lefel yn gynnil, byw a theimladwy. Arbennig.

Direidi:

Diolch Direidi, am glodfori Creigiau Carnigli ac Afon Gwaun fel dy gynefin '*lle mae fy enaid yn holl gytûn*'. Mae byd natur dy ardal ac adeiladau pwysig dy deulu fel y capel a'r ysgol yn creu dy gynefin a dy etifeddiaeth '*fy ngwreiddiau, fy iaith, fy hanes*'. Dyma gerdd sydd wedi ei strwythuro'n dda

gennyt ac yn werth ei chadw a'i chyhoeddi mewn papur bro a'i rhoi hefyd fel anrheg i aelodau dy deulu. Dalia ati i ysgrifennu barddoniaeth.

Dot:

Dyma gerdd llawn tafodiaith naturiol yn sôn am werth a symlrwydd bywyd ar fferm ac yng nghefn gwlad. Rwyf yn cadw'r neges tan y bennill olaf lle rwyf yn datgan mai gwell o lawer gen ti fyw yn y wlad nag yn dref. Dyma gerdd lle rwyf wedi ei saernïo'n ofalua a thaclus. Dal ati.

Dr Pwy:

Dyma gerdd sy'n rhoi cysur pan fo bywyd yn boen, yn unig ac yn codi amheuan. Rwyf ti'n sôn am berson/au yn dy fywyd sy'n cynnig cyngor a chysur iti *'Tyrd am dê, cael sgwrs am dy deimladau'* neu un sy'n dy wahodd pan rwyf ar ben dy hun *'Tyrd am fwyd, rydw i mond lawr y lôn'* a hefyd *'Os rwyf yn dy wely, Dim symud, siarad, clywed./ Byddai yna'*. Dyma linellau gorau dy gerdd, maen nhw'n wirioneddol dda ac yn dweud y cyfan yn gynnil. Dyma gerdd sy'n werth ei chyhoeddi boed ar wefan ysgol, papur bro neu ei chyflwyno i'r person/au sydd tu ôl i'r gerdd ei hun.

Draig – Pan edrychaf dros Llyn:

Mae dy gerdd yn rhoi darlun 360 gradd imi o Ben Llyn o gopa Garn Fadryn yn well nag unrhyw fap google earth! Cerdd syml, lwyddiannus a rhai llinellau da gen ti e.e. *'Porth Neigwl yn ymestyn fel bwa glas y môr'*. Mwy o linellau fel hyn. Beth am ei phostio i Llanw Llyn – mae'n werth cael ei chyhoeddi.

Draig Goch:

Dyma gerdd rydd, rymus. Mae'r bardd yn agor llenni ei lofft i ni weld a chlywed popeth sy'n gwneud iddo/i allu dweud *'Dw i gartref'* fel clywed y *'drên hanner awr wedi saith yn gadael yr orsaf'* neu *'bachgen o rif 10 / yn ceisio perswadio'i gath yn ôl i'r tŷ.'* Ac yna, yn ail ran y gerdd mae'n disgrifio man lle *'dyw 'Adre' ddim yn bod'* lle daw *'awyrennau a dronau / a thaflegrau fel mellt o'r awyr.'* Er fod pobl yn ffoi *'hwn fydd eu 'Adre' o hyd'*. Ond mae tro yng nghynffon y gerdd yn y diwedd glo pan fo'r bardd *'Yn ôl wrth fy ffenest', dwi'n troi cefn ar y byd / ac yn mynd at waith y dydd'*. Mor hawdd yw anghofio a chymryd ein cynefin, cartref a'n 'hadref' ni yn ganiataol. Cerdd rymus, neges rymus.

Encil y Coed:

Dyma gerdd fach syml ar yr olwg gyntaf gen ti, yn disgrifio cynefin all fod yn gynefin cyfarwydd i lawer – byd natur, teulu prysur - tad yn ffermio, mam yn tacluso a theulu a ffrindiau yn chwarae mewn ysgol a pharc. Yn y ddau bennill olaf nid yw pethau mor syml â hynny, nid yw *‘Eden yno o hyd’*, mae’r *‘chwerthin ‘di mynd yn fud*, ac *‘Adefeilion sydd yno bellach’*. Rydym yn sylweddoli yn y llinell olaf rymus *‘Mor wahanol nawr yw Wcráin.’* Dyma gerdd dda gen ti, Encil y Coed. Dal ati i ysgrifennu a beth am gyhoeddi’r gerdd yma ar wefan yr ysgol?

Euros:

Rwyt ti wedi ysgrifennu cerdd yn dweud er dy fod yn hoffi mynd i’r ysgol nid oes dim byd yn well na chael bod adref gan mai *‘Amser mynd adre yw’r amser gorau’* gen ti. Cofia edrych dros dy waith i gywiro’r sillafu neu defnyddia Cysill drwy dy waith. Diolch am fynd ati i gystadlu Euros!

Ffermwr Bodlon:

Dyma gerdd sy’n mynd â mi yn syth i gaeau ac adeiladau fferm Hirwaun. Rwyt yn fardd sy’n sylwi ar fanylion bach sy’n dweud y cyfan wrthym am natur caeau a byd ffermio a dy gynefin di. Rwyt yn enwi’r caeau a dod â nhw yn fyw e.e. mae Cae Mawr yn *‘bantiau a thonnau, / yn crwydro am y lân’*. Gallaf aroglï sied Newydd i’r dim *‘Oglau’r dŵr wedi sefyll / Pennau’r heffrod yn y clo-pen-rhes.’* Rwyf yn gallu gweld y *‘drydwys’* yn *‘pigo cefna’r buchod’*. Dyma beth ydi bardd sylwgar sy’n gallu creu awyrgylch. Dyma gerdd sy’n gorffen yn hollol naturiol gyda bodlonrwydd y ffermwr/ bardd yn yfed *‘Hufen melys buwch 819’*. Dylai’r gerdd yma gael ei chyhoeddi ar wefan ysgol neu bapur bro neu ei fframio ar wal yn dy gartref. Dal ati i farddoni!

Grug:

Cerdd drefnus yn cyfleu dy falchder fel merch o gefn gwlad ac fel Cymraes o Geredigion. Rwyt yn rhoi sylw i natur, adeiladau a digwyddiadau dy gynefin yn syml ac annwyl. Mentra nawr i gynnwys cyffelybiaeth neu drosiad neu darllena gerddi sy’n cynnwys rhoi sylw i bethau bach sy’n creu emosiwn neu deimlad fel llinell o ddeialog neu symudiad wyneb. Ymlaen â thi i arbrofi!

Gwenllian:

Dyma gerdd sy’n sôn am berson sy’n ysu i adael cynefin ac yna ar ôl mynd mae’n teimlo *‘gwreiddiau sy’n fy nhynnu i nôl’* ac yn gweld gwerth yn y bobl

‘sy’n driw’ a lle mae cartref cynnes yn ‘*flanced cyfarwydd*’. Dyma’r pethau sy’n dangos beth ydi ystyr ‘*perthyn*’ i gymuned a chynefin. Y neges yma ydi cryfder dy gerdd. Ymlaen yn nawr i arbrofi i gyfleu neges mewn cerdd trwy awgrymu ac nid dweud, trwy ddefnyddio cyffelybiaeth neu drosiad. Pob lwc ar ddal ati i farddoni ac arbrofi.

Haf:

Dyma gerdd sydd yn mynd â’r darllenydd drwy hanes Cwm Gwendraeth yn ddaearyddol a hanesyddol. Rwy’n hoffi llinellau fel afon y Gwendraeth yn ‘*cario hen leisiau’r glô*’ a’r drydedd bennill wrth iti gyferbynnu ddoe a heddiw. Mae’r bennill olaf yn wahanol ac annisgwyl wrth iti nodi uniad dwy ysgol ac fel mai’r balchder at yr un cynefin a thir yw’r llinyn aur cyffredin sy’n cadw ysbryd y Cwm yn fyw yn Ysgol Maes y Gwendraeth. Cerdd dda ddylai fod ar wefan yr ysgol os nad ydi hi eisoes! Dal ati.

Hanna:

Dy gynefin di ydi bod yn sŵn cerddoriaeth. Rwyt yn ymdrechu’n dda i ddewis ansoddeiriau unigol i gyfleu’r gerddoriaeth a’i effaith arnat. Cofia ‘brawf-ddarllen’ dy waith sef edrych dros rhai geiriau rhag ofn dy fod wedi eu teipio’n anghywir. Dal ati!

Heulwen Haf:

Dyma drin y testun mewn ffordd wahanol i bawb arall yn y gystadleuaeth. Rwyt yn sylweddoli nad yw cynefin neu gartref pawb yr un fath o ran cyfleoedd neu o ran profiadau. Mae’n amlwg dy fod yn fardd sensitif. Rwyt yn dweud dy neges yn blwmp ac yn blaen yn y llinellau olaf. Meddylia sut mae modd dweud yr un peth trwy awgrymu, trwy adael i’r darllenydd feddwl drosto’i hun. Dyma lle fedri di arbrofi tro nesaf fel bardd.

HR:

Dyma gerdd sy’n talu parch i wahanol gynefinoedd allweddol yn y byd ar dir a môr, o gynefin geifr ar fynyddoedd creigiog i gynefin pysgod mewn ‘*cwrel llachar*.’ Rwyt yn cyfleu neges bwysig i’r sawl sy’n darllen sef amddiffyn y ddaear a’n cynefinoedd. Dyma gerdd dda i’w harddangos ar furlun adran y Maes Dysgu Dyniaethau yn dy ysgol. Dal ati.

Ifan Watsiad Losgi:

Rwyf yn cymryd dy fod ti yn dy elfen yn '*mynd i'r ryc*' ac mai ar y cae chwarae mae dy gynefin di! Gofynna i dy athrawon addysg gorfforol fframio'r gerdd hon yn yr ystafell newid cyn mynd ar y cae! Diolch am gystadlu! Dal ati!

Inselg:

Darlun hyfryd sydd yma o dy hoff gynefin sef y mynydd y byddi di'n mynd am dro gyda dy fam a'r ci ac mae eu cwmnïaeth yn cyfri cyn gymaint iti hefyd. Rwyf yn dda am sylwi ar bethau o dy gwmpas. Beth am ychwanegu rhagor o gyffelybiaethau i dy gerdd? Darlun syml, ond darlun sy'n cyfleu cynefin a chwmnïaeth mae llawer iawn o bobl yn rhannu hefo ti. Diolch am gystadlu! Dal ati!

James:

Rwyf yn sicr wedi meddwl am strwythur dy gerdd cyn ysgrifennu. Syniad da ydi ystyried yn gyntaf beth sy'n creu cynefin iti e.e. teulu, ffrindiau a bod mewn tîm. Rwyf yn gweld gwerth hefyd mewn ail adrodd gair mewn cerdd ar adegau. Rwyf yn fardd sensitif sy'n cyfleu mai pobl sy'n creu dy gynefin a dy bersonoliaeth di. Diolch am gystadlu! Dal ati!

John Jones:

Dyma ddisgrifiad gonest o beth ydi 'cynefin' iti sef ystafell fyw neu lofft/ ystafell wely gartref. Lle i ymlacio, cael siocled poeth, gwylio teledu. Rwyf yn gallu llunio trosiad yn dda '*y clustog yn gwmwl ar fy nghefn.*' Rwyf yn disgrifio awyrgylch yr ystafell i'r dim drwy ddefnyddio cyffelybiaeth fyw e.e. '*Stafell hwyliog fel parti pen-blwydd.*' Dal ati i greu barddoniaeth am bethau neu emosiynau triw iti fel hyn. Diolch am gystadlu a dalia ati.

Josh MacLeod:

Diolch Josh am ddweud y gall dy gynefin yn Sir Benfro 'adfywio' person petaem yn mynd draw yna, ac rwyf yn dweud y gwir mae lle weithiau yn gallu newid person a gwneud iddo/i deimlo'n well. Cofia, nad oes raid iti ysgrifennu cerdd sy'n odli bob amser a beth am droi dy law tro nesaf at ysgrifennu cerdd rydd. Diolch am gystadlu Josh! Dal ati!

Le Bron James:

Dyma gerdd sy'n rhoi darlun byw o dy gynefin a dy bentref i'r darllenydd. Mae'r gerdd yn mynd â ni i weld y newid dros gyfnod o hanes y pentref a'r trigolion a'u gwaith hyd at heddiw. Er bod newid, rwyf yn gwerthfawrogi ac yn talu parch i'r '(l)leisiau, dwylo a breuddwydion' y 'camau' a'r 'chwerthin a galar.' Llinell dda yw 'Mae'r strydoedd yn dal ein camau.' Mwy o linellau fel hyn! Anfona dy gerdd i'r papur bro ! Diolch am gystadlu! Dal ati!

Lili Wen Fach:

Dyma gerdd wedi ei saernïo'n drefnus iawn ac yn cyfleu gwahanol agweddau at dy fro – bro o harddwch 'O Bwll Gwaelod , Trefdraeth draw i'r afon Teifi' , bro llonyddwch, enwogrwydd, diwylliant a bro sy'n cyfri iti yn bersonol.

Na does 'dim angen mynd dim pellach'. Arbrofa nawr trwy ysgrifennu cerddi rhydd a chynnwys cyffelybiaeth neu drosiad yn dy waith. Cyn hynny, anfona dy gerdd i'r papur bro ! Diolch am gystadlu! Dal ati!

Lleuwen:

Wel, dyma ymdrech lew i ysgrifennu cerdd sydd fel baled fechan yn adrodd stori bywyd trwy lygaid hen wraig yn cofio'n ôl wrth eistedd ar draethell ac awgrymir diwedd glo trist yn y bennill olaf. Rwyf yn cynnal y syniad o draeth a thywod drwy'r gerdd yn dda a hoffaf y llinellau : 'Gollyngodd y ferch dywod i'r llawr / Pob gronyn fach yn cofnodi awr.' Diolch am gystadlu! Dal ati!

Llew:

Dyma gerdd naturiol sy'n dewis dy hoff 'stafell fel dy gynefin. Rwyf yn cyfleu cludwch dy stafell wrth nodi'r hyn rwyf ti'n ei glywed, ei weld a'i deimlo. Mae defnyddio dy synhwyrâu fel hyn wrth farddoni yn effeithiol. Rwyf yn dda hefyd am greu cyffelybiaethau ond ceisia, weithiau, feddwl am gyffelybiaethau newydd, gwahanol yn lle 'oer fel oergell'. Diolch am gystadlu a dalia ati i farddoni!

Llygad y dydd:

Dyma gerdd fach sy'n cyfeirio at ardal Rhydaman dros gyfnod o amser o ran cysylltiad gyda'r chwedl y Twrch Trwyth, diwydiant glo, ardal y bêl hirgron a dy gynefin di. Mae'n werth anfon dy gerdd i'r papur bro neu rhywbeth cyffelyb! Diolch am gystadlu! Dal ati!

Luke:

Dyma gerdd fach sy'n dangos pa mor bwysig yw dy gynefin a Chymru iti. Tro nesaf y byddi di'n ysgrifennu barddoniaeth beth am iti gynnwys rhagor o gyffelybiaethau fel mynyddoedd '*yn sefyll fel jiraff cadarn*'. Beth am awgrymu hefyd sut mae dy gynefin yn gwneud iti deimlo? Diolch am gystadlu! Dal ati!

Marcys y Mwydyn:

Dyma gerdd sy'n dangos pwysigrwydd bywyd 'tu allan' iti a dy fod wrth dy fodd yn yr awyr agored. Rwyd wedi ceisio meddwl am ansoddeiriau a rhai cyffelybiaethau yn dy gerdd hefyd! Cofia edrych dros dy waith i wneud yn siŵr dy fod sillafu yn gywir neu defnyddia Cysill! Diolch am gystadlu. Dal ati!

Martin Melyn:

Dyma gerdd sy'n disgrifio dy hoff stafell, dy adref di yn dda! Rwyd wedi meddwl am ansoddeiriau wrth ddisgrifio. Rwyd yn dda hefyd am greu cyffelybiaethau ond ceisia, weithiau, feddwl am gyffelybiaethau newydd, gwahanol yn lle yn 'dywyll fel yr awyr bob nos'. Rwyd yn sôn am y glaw fel 'dropledi' ac rwy'n deall yn iawn beth rwyd ti'n ei ddweud ond cofia wirio yn geiriadur ac wrth wneud hynny fe weli di mai'r gair Cymraeg am 'drops' ydi 'diferion'. Gair da yntê! Diolch am gystadlu a dal ati!

Mary:

Dyma gerdd sy'n rhoi darlun cynnes o dy gynefin! Rwyd wedi meddwl am gyffelybiaethau hefyd e.e. y cwm '*fel darlun hardd ar y wal*' ac eto wrth feddwl fod y coed yn siglo '*fel dwylo'n chwifio helo*' a dy gynefin '*fel trysor*'. Beth am ysgrifennu ychydig bach mwy tro nesaf? Diolch am gystadlu! Dal ati!

Y Mynydd:

Mae'n amlwg fod dy gynefin yn golygu llawer iti. Rwyt ti'n fardd sy'n hoffi defnyddio ansoddeiriau ac yn dda am ddefnyddio teimlad ac emosiwn. Beth am ti ddarllen dy gerdd yn uchel y tro nesa i weld ydi pob gair yn gwneud synnwyr ac yn addas. Diolch am gystadlu! Dal ati!

Nawicram:

Mae'n amlwg fod Pontarddulais yn cyfri llawer iti. Roeddwn wrth fy modd yn darllen am yr enwau lleoedd trwy'r gerdd mae hyn yn gwneud y gerdd yn fyw imi. Rwyt yn odli'n gywir ar y cyfan – cofia wirio rhai ohonynt! Beth am geisio ysgrifennu cerdd rydd y tro nesaf hefyd? Diolch am gystadlu! Dal ati!

Pengwin:

Rwyt ti wedi ysgrifennu cerdd acrostig am dy 'Arwr'. Mae arwr yn gallu cyfleu teimlad o gynefin rhywun hefyd weithiau, mae'n debyg. Ond ceisia gadw at y testun y tro nesaf! Diolch am gystadlu! Dal ati!

Popi:

Dyma gerdd sy'n sôn am wreiddiau dy '*gyn dadau*' oddi tanat ac yn ysu am '*dyfu fy nghangennau / I bedwar ban y byd*' cyn dod yn ôl i dy gynefin i '*ddweud straeon, rhannu fy nghalon*'. Beth am arbrofi yn nawr i gynnwys rhagor o drosiadau neu gyffelybiaethau yn dy waith a meddwl sut mae awgrymu dy deimladau a gadael i'r darlennydd feddwl trostyn nhw eu hunain? Pob lwc wrth ddal ati i farddoni ac arbrofi.

Sanau Gwyn:

Glan y môr neu draethell sy'n cynrychioli dy gynefin di. Atgofion melys o '*Hwyl a straeon yr ha*' neu pan fo'r môr yn llonydd gyda'r nos yn '*cau amdanom*'. Beth am geisio cynnwys trosiad neu gyffelybiaeth yn dy waith tro nesaf? Ymlaen yn nawr i arbrofi gyda hyn. Diolch am gystadlu a dal ati!

Sandra:

Dy '*hafan hapus*' di yw bod wrth ymyl y môr. Rwyt yn dda am gynnwys dy synhwyrau yn dy gerdd. Mae ambell gyffelybiaeth dda gennynt e.e. '*pysgod lliwgar chwim fel enfysau yn y dŵr*.' Diolch am gystadlu a dal ati!

Sbigoglys:

Rwy't yn sylweddoli pa mor ffodus wyt ti, a phawb arall tebyg iti o fyw mewn cynefin diogel, gan fod rhai yn gorfod ffoi o'u cartrefi a'u cynefin. Mae'r gerdd yn cloi yn dda drwy wahodd ffoaduriaid i gynefin neu '*harbwr diogel*' / '*Ac fel un agorwn ein calon.*' Dyma drin y teitl mewn ffordd wahanol. Arbrofa tro nesaf drwy gynnwys cyffelybiaeth neu drosiad yn dy waith neu awgrymu yn lle dweud. Diolch am gystadlu a dal ati!

Y Ddraig:

Weithiau nid oes angen lle go iawn, boed yn bentref, tref, dyffryn neu gwm i roi teimlad o gynefin a dyma beth sydd gen ti yn y gerdd hon. Mae'r ddraig goch ar faner Cymru, '*Fy maner i*' yn cynrychioli cynefin iti. Dyma feddwl a chyfleu bod cynefin yn gallu cael ei danio gan symbol fel y ddraig goch a dyna pam rwy't yn gorffen y gerdd yn afaelgar drwy ddweud '*Rwyf adref pan welai di.*' Diolch am gystadlu a dal ati!

Y Ffermwr bach:

Dyma gerdd sydd wedi ei hadeiladu'n ofalus. Mae 'cynefin' fel *jig-sô* iti sy'n cynnwys cartref, lle, pentref, tir a chenedl gyda'i gilydd. Rwy't wedyn yn ein harwain drwy ddangos rhai darnau o'r *jig-sô* yma. Rwy'n hoffi'r llinellau sy'n sôn am waith dy gartref '*Ffido, godro, scrêpo, torri clawdd*', neu pan wyt yn gweld pobl yr ardal fel darn o *jig-sô* pwysig dy gynefin di e.e. '*Twm Siop, Len Fish, Wil Gôf a Doreen, Olive lan rhewl, a Jac Penlan Ddu, / Oll yn ddarnau o'm jig-so i.*' Rwy't yn hoffi cynnwys odl yn dy gerdd ond beth am arbrofi tro nesaf trwy ysgrifennu cerdd rydd i weld sut y medri di arbrofi drwy awgrymu yn lle dweud a chynnwys cyffelybiaeth neu drosiad yn dy waith? Anfona dy gerdd i'r papur bro! Diolch am gystadlu a dal ati!